

## Trefniadau Arfaethedig ar gyfer penodi aelodau o Gyngor y Gweithlu Addysg

<b>Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad</b>	Eich enw: <b>Rebecca Williams</b>  Sefydliad (os yw'n berthnasol): <b>UCAC (Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru)</b> <b>PEIDIWCH CYFIEITHU'R ENW HWN</b>  E-bost/rhif ffôn: <a href="mailto:rebecca@athrawon.com">rebecca@athrawon.com</a> / 01970 639950  Eich cyfeiriad: <b>UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU</b>
---	--

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **4 Gorffennaf 2014** i:

Nathan Huish  
Is-adran Safonau Ymarferwyr a Datblygiad Proffesiynol  
Yr Adran Addysg a Sgiliau  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: [ewc.enquiries@wales.gsi.gov.uk](mailto:ewc.enquiries@wales.gsi.gov.uk)

## Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno gyda'n hatodlen arfaethedig, a geir yn yr Atodiad?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	<b>Anghytuno</b>	✓	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
--------	--------------------------	------------------	---	---------------------------------	--------------------------

### Sylwadau ategol

#### Rhan Un

Credwn y dylid defnyddio enw gwreiddiol pob mudiad a enwir yn rhan 1, a **pheidio'u cyfieithu** ar gyfer y fersiwn Cymraeg o'r rheoliadau. Mae'r cyfieithiadau'n gallu bod yn gamarweiniol, ac yn gwbl anghyfarwydd, er enghraifft, nid yw rhestru undeb *Voice* fel *Llais* yn y fersiwn Cymraeg yn gwneud unrhyw synnwyr o gwbl – nid yw'n enw sy'n cael ei ddefnyddio. Yn ogystal, awgrymw'n **ddefnyddio'r acronymau** mewn cromfachau ar ddiwedd yr enw llawn, ble mae hynny'n berthnasol, gan mai'r rheiny yw'r ffurfiau fwyaf cyfarwydd.

#### Rhan Dau

Deallwn fod y rhestr hon wedi'i chymryd o'r rheoliadau cyfredol - a bod y rheiny, yn eu ffurf wreiddiol, yn dyddio yn ôl i'r cyfnod cyntaf ar ôl datganoli ar ddiwedd y 1990au. Teimlwn ei bod yn briodol i gymryd y cyfle i ddiwygio'r rhestr.

Mi fydd yn bwysig bod yn glir ynghylch y rhesymeg y tu ôl i'r dewis terfynol o gyrff – hynny yw, y rhesymau dros gynnwys pob corff unigol, ond yn ogystal, y cyfuniad a'r cydbwysedd o gyrff yn eu cyfanrwydd. Nid yw'r math hwnnw o resymeg glir yn nodwedd o'r rhestr gyfredol, sy'n ymddangos yn fympwyol ac yn anacronistaidd mewn manau.

Rhaid sicrhau cynrychiolaeth deg i'r gwahanol sectorau addysgiadol (ysgolion ac addysg bellach), a gwahanol rannau o'r gweithlu (athrawon/darlithwyr/gweithwyr cymorth dysgu) dan sylw. Yn ogystal, bydd angen bod yn sicr y cynrychiolir categorïau/sectorau sylweddol oddi fewn i'r prif gategorïau; er enghraifft, caiff ysgolion eglwysig eu cynrychioli yn y rhestr ar hyn o bryd, ond nid oes unrhyw ymgais i sicrhau cynrychiolaeth nac arbenigedd o'r sector cyfrwng Cymraeg.

Dyma'r prif egwyddorion y tu ôl i'r diwygiadau rydym yn eu hawgrymu:

- **Dylai'r cyrff fod yn Gymreig**, hynny yw cyrff sy'n benodol i Gymru, neu sydd â threfniadaeth sy'n (wirioneddol) weithredol yng Nghymru, er mwyn sicrhau eu bod yn deall y gyfundrefn addysg Gymreig, a fframweithiau cyfreithiol a rheolaethol sy'n berthnasol i Gymru.
- Corff proffesiynol ar gyfer addysgwyr fydd Cyngor y Gweithlu Addysg, felly dylai'r mudiadau a sefydliadau sy'n enwebu fod yn **uniongyrchol berthnasol i'r sector addysg**, ac i faes addysgu'n benodol.

Mae gennym gwestiynau/pryderon, yn benodol, ynghylch y canlynol ar y rhestr gyfredol:

- **Y Gymdeithas Genedlaethol ar gyfer Anghenion Addysgol Arbennig:** A oes swyddfa neu drefniadaeth Gymreig gan y mudiad hwn? Neu a oes mudiad arall yng Nghymru fyddai'n meddu ar yr un arbenigedd ac yn gallu cynrychioli'r un buddiannau e.e. SNAP Cymru?
- **Penaethiaid Addysg Uwch Cymru:** A oes angen y rhain yn ogystal â UCET? Gan nad yw'r Cyngor yn effeithio'n uniongyrchol ar y sector addysg uwch, gofynnwn a fyddai'r naill neu'r llall o'r rhain yn ddigon? Os felly, byddem yn dadlau bod UCET yn fwy perthnasol oherwydd y cysylltiad gyda Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon. Os oes penderfyniad i gadw Addysg Uwch Cymru, awgrymwn ddileu'r gau'r 'Penaethiaid', am mai 'Addysg Uwch Cymru' yw enw'r sefydliad.
- **Cyddfederasiwn Diwydiant Prydain yng Nghymru;**  
**Sefydliad y Cyfarwyddwyr:** Nid ydym yn teimlo ei fod yn briodol i gael cymaint o gynrychiolaeth o'r sector busnes ar gorff proffesiynol athrawon, darlithwyr a staff cymorth dysgu – pam ddylai'r sector busnes gael cynrychiolaeth ar gorff proffesiynol i addysgwyr? O ran cynrychiolaeth i gorff ym maes sgiliau yn y gweithle, teimlwn fod Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru yn ddigonol.
- **Cymdeithasau Rhieni Athrawon y DU:** Fel uchod, a oes swyddfa neu drefniadaeth Gymreig gan y mudiad hwn? Neu a oes mudiad arall yng Nghymru fyddai'n meddu ar yr un arbenigedd ac yn gallu cynrychioli'r un buddiannau? Awgrymwn fod Llywodraethwyr Cymru yn cynrychioli'r buddiannau hyn yn ddigonol.
- **Cymdeithas Cyngorau Ymgynghorol ar Addysg Grefyddol Cymru:** Gan nad oes unrhyw sefydliad na mudiad arall ar y rhestr sy'n cynrychioli pwnc penodol ar y cwricwlwm, teimlwn nad yw'n briodol i barhau i gynnwys SACRE.

**Cwestiwn 2** – Oes unrhyw gyrrff eraill sy'n cynrychioli'r categorïau a geir ym Mharagraff 7.1 rydych chi'n teimlo y dylid eu cynnwys yn y rhestr?

### Sylwadau ategol

Teimlwn y byddai'r cyrff canlynol yn ychwanegiadau gwerthfawr at yr atodlen, a hynny yn lle rhai o'r cyrff rydym wedi'u crybwyll uchod:

- **Cymdeithas Ysgolion dros Addysg Gymraeg:** ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ffordd o sicrhau bod cynrychiolaeth i'r sector cyfrwng Gymraeg, nac arbenigedd mewn materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg mewn addysg. Byddai cael enwebiad gan CYDAG yn gallu llenwi'r bwlch amlwg hwnnw.
- **Y Coleg Gymraeg Cenedlaethol:** fel uchod, byddai enwebiad gan y Coleg

Cymraeg Cenedlaethol yn gallu cynnig arbenigedd o safbwynt addysg uwch, hyfforddiant cychwynnol athrawon a materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg mewn addysg.

- Mudiadau megis **SNAP Cymru** neu **Plant yng Nghymru** sy'n cynrychioli buddiannau plant a phobl ifanc, gan gynnwys yn y sector addysg.

**Cwestiwn 3** – Oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu dwyn i sylw Llywodraeth Cymru mewn perthynas â phenodi i Gyngor y Gweithlu Addysg?

### **Sylwadau ategol**

Rydym yn llwyr ymwybodol bod rhai o'r penderfyniadau ynghylch apwyntiadau i Gyngor y Gweithlu Addysg eisoes wedi'u gwneud (ac wedi'u gorseddu yn Neddf Addysg (Cymru) 2014) ac felly na all y rheoliadau arfaethedig newid y rheiny. Fodd bynnag, mae rhai elfennau yn y cynigion ar gyfer y rheoliadau, nad ydynt eisoes wedi'u pennu yn y Ddeddf, y mae rheidrwydd arnom i fynegi pryder yn eu cylch.

#### **I. Cwmpas y rheoliadau a'r ymgynghoriad**

Cyfeiria'r Ddeddf at bwerau y neilltuir i Weinidogion drwy reoliadau, ond nad oes sôn amdanynt yn yr ymgynghoriad hwn. Er enghraifft, noda Atodlen 1 y Ddeddf, yng nghymal 4(2) y caiff Gweinidogion, drwy reoliadau, wneud darpariaeth ynghylch:

(a) cymhwysra person i gael ei benodi;

...

(c) llenwi unrhyw leoedd gwag yn yr aelodaeth sy'n codi ac eithrio ar ddiwedd tymor swydd aelod.

Gan nad yw'r ymgynghoriad hwn yn gwneud cynigion penodol yn y meysydd hyn, ni allwn fod yn sicr a fydd set o reoliadau ar wahân yn ymdrin â nhw, neu a fydd y rheoliadau arfaethedig hyn yn delio â nhw, ond heb ymgynghori ar yr agweddau penodol hyn.

#### **II. Diffyg cynrychiolaeth i'r gweithlu addysg**

Gwyddom fod y Ddeddf ei hun yn nodi mai Gweinidogion Cymru sy'n penodi aelodau'r Cyngor. Teimlwn reidrwydd i ailddatgan ein gwrthwynebiad chwynn i hynny, ar sail y ffaith mai corff proffesiynol i'r gweithlu addysg yw hwn, ac felly'r mai'r gweithlu ei hun ddylai gael penderfynu pwy sy'n eu cynrychioli ar y corff.

O ran darpariaethau'r rheoliadau, cynigir mai dim ond 4 aelod o 14 (28%) a gaiff eu dewis ar sail enwebiadau gan fudiadau sy'n cynrychioli'r gweithlu. Dan y drefn bresennol caiff 12 aelod o 25 eu *hethol* gan y gweithlu, a chaiff 4

ychwanegol eu penodi ar sail enwebiadau gan gymdeithasau athrawon – felly 64% i gyd. Cyniga'r ddogfen ymgynghorol felly bod cynrychiolaeth y gweithlu ar y Cyngor yn gostwng o 64% i 28% dan y drefn newydd. Mae hynny'n gyfan gwbl annerbyniol, o ran egwyddor, yn llygaid UCAC.

Yn ychwanegol at y pwynt o egwyddor, mae pwynt ymarferol pwysig sef bod angen i'r gweithlu deimlo bod y corff yn perthyn iddynt, a'i fod yn eu cynrychioli nhw – yn enwedig felly gan y bydd gofyn i ddegau o filoedd o weithwyr dalu ffi i ymuno â'r Cyngor. Nid yw'n debygol y bydd y teimlad hwn o berchnogaeth yn cael ei feithrin os na fydd mwy o gynrychiolaeth i'r gweithlu ar y Cyngor. Rhagwelwn broblemau difrifol yn y cyswllt hwn maes o law os glynir at y cynigion yn y ddogfen ymgynghorol.

Er bod y Ddeddf ei hun yn rhoi cyfrifoldeb ar Weinidogion Cymru i sicrhau bod mwyafrif o aelodau'r Cyngor yn bersonau cofrestredig, neu wedi bod yn gofrestredig yn ddiweddar – mae hynny'n golygu y gallai hyd at 42% o aelodaeth y Cyngor fod yn bobl nad ydynt byth wedi bod yn rhan o'r gweithlu addysg. Yn ogystal, mae'r ffaith nad yw "wedi bod yn gofrestredig yn ddiweddar" wedi'i ddiffinio'n union, yn caniatáu hyblygrwydd annerbyniol, ym marn UCAC.

Pwyswn ar Lywodraeth Cymru i sicrhau, drwy'r rheoliadau hyn, bod gwarant llawer cryfach na'r hyn sy'n ofynnol dan y Ddeddf, o ran y ganran o aelodau'r Cyngor *sy'n perthyn i'r gweithlu ar hyn o bryd*.

Nid yw'r Ddeddf yn rhagnodi rhaniad rhwng apwyntiadau ar sail enwebiadau, ac apwyntiadau uniongyrchol; nid yw ychwaith yn crybwyll enwebiadau o ddau bwl gwahanol. Felly teimlwn fod digon o hyblygrwydd o fewn y fframwaith deddfwriaethol i wneud newidiadau i'r cynigion ar gyfer y rheoliadau a fyddai'n sicrhau bod cynrychiolaeth decach i'r gweithlu.

### **III. Penodiadau uniongyrchol**

Gan fod unrhyw elfen o ethol aelodau wedi'i diddymu gan y Ddeddf, mae UCAC yn gadarn o'r farn y dylai pob apwyntiad gael ei wneud ar sail enwebiadau. Nid ydym o'r farn bod unrhyw gyfiawnhad dros apwyntiadau uniongyrchol gan y Gweinidogion. Rhaid i'r corff newydd ennill hygredded ymhlith y gweithlu - ac mae perygl sylweddol iawn y bydd apwyntiadau uniongyrchol yn tanseilio unrhyw hygredded ac ymddiriedaeth o'r cychwyn cyntaf. Byddai unrhyw ganfyddiad (yn gam neu'n gymwys) mai apwyntiadau gwleidyddol yw'r rhain yn farwol i'r Cyngor newydd.

### **IV. Diffyg meini prawf ar gyfer y penodiadau**

Nid oes unrhyw sôn yn y ddogfen ymgynghorol ynghylch beth fydd y meini prawf ar gyfer y penodiadau i'r Cyngor newydd. Yn Atodlen 1 y Ddeddf, cymal 3(4)(a) dywedir bod yn rhaid i Weinidogion Cymru:

“rhoi sylw i ddymunoldeb sicrhau bod yr aelodaeth honno yn cynnwys

personau a'r profiad a'r sgiliau y mae eu hangen i alluogi'r Cyngor i gyflawni ei swyddogaethau yn effeithlon ac yn effeithiol"

Sonnir hefyd am egwyddorion a gweithdrefnau penodiadau cyhoeddus, a'r ffaith bod y rhain "wedi'u cynllunio i sicrhau mai'r ymgeisydd mwyaf addas sydd ar gael a gaiff ei benodi i'r swydd". Fodd bynnag, nid yw'r naill beth na'r llall yn rhoi sail ddigonol ar gyfer tryloywder yng nghyd-destun y penodiadau hyn - rhaid wrth feini prawf penodol. Byddem am weld ymgynghori ar feini prawf o'r fath.

#### **V. Diffyg categorïau ar gyfer y penodiadau**

Gan fod y Cyngor yn ymestyn i gynnwys sawl categorï gwahanol o blith y gweithlu addysg, byddem wedi disgwyl gweld cyfeiriad yn yr ymgynghoriad at sicrhau nifer penodol o seddi (neu leiafrif, o leiaf) ar gyfer y gwahanol grwpiau o fewn y gweithlu – ond nid oes unrhyw gynnig felly yn y ddogfen ymgynghorol. Mae hynny'n ymddangos fel diffyg amlwg – oni fyddai'n fanteisiol i fod yn glir o'r cychwyn faint o seddi sydd ar gael i bob categorï?

Mae'r rheoliadau cyfredol yn gwneud darpariaeth ar gyfer aelodau (etholedig) yn y categorïau cynradd, uwchradd ac arweinwyr ysgol. Nid oes unrhyw sôn am gategorïau cyffelyb, o ran sefydliadau, nac o ran mathau o weithwyr, yn yr ymgynghoriad hwn. Sut felly y bydd modd sicrhau cydbwysedd?

#### **VI. Diffyg manylder ynghylch gweithdrefnau sicrhau cydraddoldeb**

Dyweda'r ddogfen ymgynghorol ym mharagraff 9.2:

"Nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw effaith negyddol ar faterion cydraddoldeb yn sgil y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn cyhyd â bod trefniadau'n bodoli i sicrhau bod materion cydraddoldeb yn cael eu hystyried a'u trin mewn perthynas â phenodi aelodau o'r cyngor."

Fodd bynnag, nid oes unrhyw esboniad o'r trefniadau a ragwelir i sicrhau cydraddoldeb o safbwynt y prosesau apwyntio.

Ymhellach i hynny, nid oes unrhyw gyfeiriad o gwbl at gyfrifoldebau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

#### **VII. Diffyg manylder ynghylch y drefn enwebu**

Nid oes sôn am sawl enwebiad y caiff bob corff yn Rhan 1 ei wneud. Mae'n bosib y bydd rhai o'r cyrff a enwir yn Rhan 1 yn cynrychioli sawl categorï o'r gweithlu. Os felly a fyddant yn cael gwneud enwebiad ar gyfer bob categorï? Neu a oes hawl i enwebu hyd at 4, gan mai 4 aelod sydd i'w penodi o Ran 1 yr atodlen?

Mae'r un cwestiwn yn codi mewn perthynas â'r cyrff a enwir yn Rhan 2.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:

